



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 4 Tachwedd 2025 am 6.00yh
yn rhithiol ac yn Ystafell Cyfarfod, Tŷ Cadwgan Castell Aberteifi
mewn lein a canllawiau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 4 November 2025 at 6.00pm
virtually and at a Meeting Room, Cadwgan House, Cardigan Castle
in line with guidelines of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

Presennol/Present—**Y Cynghorwyr/Councillors:** Olwen Davies (**yn y gadair** / in the chair), Catrin Miles, Richard Davies, Siân Maehrlein, David Maehrlein, Nick Bolton, John Adams-Lewis, Philippa Noble, Mark Cole, Richard Jones, Trystan Phillips, Teresa Harries, Elaine Evans (ymunodd am / joined at 18.20), Clive Davies (ymunodd am / joined at 19.00), Mike Lewis (Tivyside), Llinos Haf-Jones (**Cyfieithydd** / Translator) a / and Eleri Maskell (**Clerc/Clerk**).

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

Croesawodd y Maer, y Cyng Olwen Davies, ei chyd-aelodau i'r cyfarfod. Estynnodd y cynghorwyr eu llongyfarchiadau i Theatr Mwldan am eu rôl yn trefnu'r digwyddiad "Lleisiau Eraill". Roedd yn benwythnos gwych o adloniant eleni eto, gan roi Aberteifi ar y map gyda phobl yn mynychu o bell ac agos. Llongyfarchwyd y cyd-gynghorydd, Trystan Phillips, am gwblhau Marathon Eryri yn llywddiannus. Dymunodd y Maer ddiolch i'r Cyng Elaine Evans am fynychu ras 10k y Maer ar ei rhan ac i'r Cyng John Adams-Lewis am gynrychioli'r cyngor mewn digwyddiad te prynhawn Croeso Teifi.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

The Mayor, Cllr Olwen Davies, welcomed her fellow members to the meeting. The councillors extended their congratulations to Theatre Mwldan for their role in organising the "Other Voices" event. It was a fantastic weekend of entertainment this year again, putting Cardigan firmly on the map with people attending from far and wide. Congratulations were extended to fellow councillor, Trystan Phillips, for successfully completing yet another Snowdon Marathon. The Mayor wished to thank Cllr Elaine Evans for attending the Mayor's 10k race on her behalf and Cllr John Adams-Lewis for representing the council at a Croeso Teifi afternoon tea event.

2. I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb a cytuno a'r rhesymau a roddwyd.

Dim wedi'i roi.

To receive apologies for absence

To receive, and consider for approval, apologies for absence and reasons given.

None given.

3. I dderbyn datganiadau o ddiddordeb

Atgoffir aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ar unrhyw eitem ar yr Agenda hon ar yr adeg hon neu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor

Tref Aberteifi.

To receive declarations of interest

Members are reminded to declare any interest on any item on this Agenda at this point or at any point during the meeting in accordance with Cardigan Town Council's Code of Conduct.

Y Cyng / Cllr Siân Maehrlein: Pob mater yn ymwneud â chynllunio / All matters relating to planning.

Mae'r cynghorwyr yn eistedd ar y pwyllgor cynllunio / The councillors sit on the planning committee.

4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth 7 Hydref 2025.

Cynigiodd y Cyngorwyr fod cofnodion cyfarfod y cyngor ar nos Fawrth 7 Hydref yn cael eu cofnodi fel rhai cywir.

Minutes of last meeting

To approve and sign minutes of the meeting held on Tuesday 7 October 2025.

The Councillors proposed that the Tuesday, 7 October council meeting minutes be recorded as correct.

5. Adroddiad y Clerc

I dderbyn adroddiad gan Clerc y dref yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2025.

- Mae Jo Curson, Cyfarwyddwr Datblygu, Tai Cymru a'r Gorllewin wedi cadarnhau eu bod yn awyddus i weithio gyda chynghor y dref i greu effaith weledol gadarnhaol, ar safle'r hen ysbyty, cyn yr Eisteddfod Genedlaethol sydd ar ddod. Maent yn gobeithio penodi contractwr yn ystod y misoedd nesaf a bydd y tîm yn Tai Gorllewin Cymru yn trafod opsiynau gyda nhw. Yna bydd syniadau'n cael eu cyflwyno i gyngor y dref i'w cymeradwyo.
- Rydym wedi cwblhau'r broses brydlesu ar gyfer toiledau Chancery Lane. Unwaith y bydd yr allwedd wedi'u trosglwyddo, byddwn yn dechrau'r gwaith adnewyddu cyn gynted ag y bydd y contractwyr ar gael.
- Mae torch o babi gwyn, sy'n cynrychioli addewid dros heddwch, wedi'i rhoi'n garedig i gyngor y dref gan Sarah Wright, preswylydd y plwyf. Bydd y dorch yn cael ei gosod wrth y senotaff gan y Dirprwy Faer, y Cyng Elaine Evans, yn ystod ein Gwasanaeth Sul y Cadoediad. Nid yw Ms Wright yn dymuno cael ei had-dalu am y dorch, ond gofynnodd i'r cyngor wneud rhodd i'r Lleng Frenhinol neu Ofal Canser Aberteifi.
- Mae Polisi Addurniadau Tymhorol a Nadoligaidd Adran Goleuadau Cyhoeddus CSC wedi'i gwblhau a'i anfon ymlaen at ein cyngor unedol.

Clerk's report

To receive a report from the Town Clerk outlining actions taken following the meeting held on 7 October 2025.

- Jo Curson, Director of Development, Wales & West Housing has confirmed that they are eager to work with the town council to create a positive visual impact, at the old hospital site, in advance of the upcoming National Eisteddfod. They hope to appoint a contractor in the next couple of months and the team at West Wales Housing will discuss options with them. Ideas will then be presented to the town council for approval.
- We have completed the leasing process for Chancery Lane toilets. Once we have the keys in our possession, we will begin the refurbishment work as soon as the contractors are available.
- A donation of a white poppy wreath, representing a pledge for peace, has been kindly donated to the town council by Sarah Wright, a resident of the parish. The wreath will be laid at the cenotaph by the Deputy Mayor, Cllr Elaine Evans during our Remembrance Sunday Service. Ms

Wright does not wish to be reimbursed for the wreath, but asked the council to make a donation to the RBL or Cardigan Cancer Care.

- The CCC Public Lighting Section Seasonal and Festive Decorations Policy has been completed and forwarded to our unitary council.

6. Eitemau i'w cymryd mewn sesiwn breifat

I benderfynu pa eitemau, os o gwbl, o'r Agenda y dylid eu cymryd gyda'r cyhoedd wedi'u gwahradd.

Ni nodwyd dim.

Items to be taken in private session

To determine which items, if any, of the Agenda should be taken with the public excluded.

None noted.

7. Cynllunio

Ystyried ceisiadau cynllunio a derbynnir a dadansoddi sylwadau priodol.

Planning

To consider planning applications received and resolve to submit appropriate comments.

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A250739	N Bowen, 12 Heol yr Orsaf, Aberteifi / Station Road, Cardigan, SA43 3AD.	Adeiladu llawr cyntaf i greu lle campfa gan gynnwys lifft ar gyfer defnyddwyr anabl a gwaith cysylltiedig / Construction of a first floor to create gym space including lift for disabled users and associated works.	Dim gwrthwynebiad / No objection.

8. Eitemau i'w hystyried a'u dadansoddi / Items for consideration and resolution

a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Disgrifiad / Description</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhif y Siec / Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
01/11/25	Tai Aberteifi Ltd.: Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Tachwedd/November) Band Lydan (Tachwedd) / Broadband (November)	A9 A20	D/D	£291.67.00(0.00) £20.00 (0.00)
04/11/25	Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Hydref/October)	A5	BACS	£1957.52(0.00)
04/11/25	HMRC – Taliad TWE ar gyfer 6 Hydref 2025 – 5 Tachwedd 2025/ PAYE payment for 6 October 2025 – 5 November 2025.	A16	BACS	£639.53(0.00)
04/11/25	Bachan Deche / Handyperson (Hydref/October)	A19	BACS	£800.00(0.00)
13/10/25	Gwasanaeth cyfieithu/Translating service	A18	BACS	£70.00(0.00)
06/10/25	Sharp – Monthly minimum copies fee	A7	BACS	£30.00(5.00)
08/10/25	CSC/CCC: Road closure fee, Christmas lights.	B1	BACS	£270.00(0.00)
08/10/25	CSC/CCC: Road closure fee, Remembrance Service.	A23	BACS	£71.00(0.00)
08/10/25	CSC/CCC: Road closure fee, Cardigan Fair	B8	BACS	£920.00(0.00)

14/10/25	Adventure Playgrounds Wales – Pentop equipment	C12	BACS	£15600.00 (2600.00)
15/10/25	Menter – Hire of Radley Room for Remembrance Sunday	A23	BACS	£70.00(0.00)
20/10/25	Generation Flooring - Grass257 – Coeden Nadolig	B1	BACS	£151.71(25.30)
23/10/25	J Harries Electrical Flex for Welcome lights	B8	BACS	£20.34(3.39)
23/10/25	J Harries Electrical Industrial Plug for Welcome lights	B8	BACS	£3.60(0.60)
28/10/25	TJB Electricals Ltd	B1	BACS	£3276.00(546.00)
31/10/25	M & E Pearde Ltd – Christmas Lights	B1	BACS	£89.20(14.87)
04/11/25	Rhodd / Grant - Cardished	D3	BACS	£1000.00(0.00)
04/11/25	Rhodd / Grant – Cardigan Church Bell Ringers (St Marys)	D3	BACS	£1000.00(0.00)
04/11/25	Rhodd / Grant – St Dogmaels Junior Football Club	D3	BACS	£400.00(0.00)
04/11/25	Rhodd / Grant – Clwb Pêl Droed Maesglas	D3	BACS	£1000.00(0.00)

Cynigodd y Cynghorwyr bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu.

The Councillors proposed that the listed bills be paid.

Derbyniadau/Receipts:

09/10/2025	Lloyds Bank: Llog / Interest	£46.08
31/10/2025	Praesept 3 / Precept 3	£33,008.06
10/2025	Taliadau Stondyn Ffair Aberteifi / Pitch Payments Cardigan Fair	£210.00

b) Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
317	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Digwyddiadau ar-lein Cadwch Gymru'n Daclus sydd ar ddod / Keep Wales Tidy upcoming online events.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 06/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 06/10/2025.
318	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Gweithdai Adroddiadau Adran 6 ar-lein / Section 6 Report Online Workshops.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 07/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 07/10/2025.
319	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Cynllun Cymunedau'r Dreth Gwarediadau / Landfill Disposals Tax Communities Scheme.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 07/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 07/10/2025.
320	<i>Gardd Goedwig Gymunedol Naturewise Community Forest Garden: Digwyddiad Calan Gaeaf Cynnar / Early Halloween Event.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 07/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 07/10/2025.
321	Alun Harries – <i>Swyddog Rhanbarthol Gorllewin a Chanolbarth Cymru, Un Llais Cymru / Mid and West Wales Development Officer, One Voice Wales: Cofnodion draft Pwyllgor Ardal Ceredigion / Draft Minutes, Ceredigion Area Committee.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 08/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 08/10/2025.
322	Eifion Jones – <i>Swyddog Llwybrau Cyhoeddus, CSC / Rights of Way Officer, CCC: Cadarhanu gorchymyn Adran 53 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 / Confirmation of order Section 53 Wildlife and Countryside Act 1981.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 08/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 08/10/2025.
323	Dafydd Llywelyn – <i>Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed Powys / Dyfed Powys Police and Crime Commissioner: Mr Ifan Charles, Penodiad Prif Gwnstabl / Chief Constable Appointment.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 10/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 10/10/2025.
324	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Digwyddiadau Mannau Gwyrdd CAVO Green Spaces Information Event.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 10/10/2025.</i>

		For your information. Forwarded to all councillors on 10/10/2025.
325	CSC Adain Cau Ffyrdd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: <i>Marchnad Stryd y Ffair</i> / Cardigan Fair Street Market 06.00 – 00.00hrs.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 10/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 10/10/2025.
326	CSC Adain Cau Ffyrdd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: <i>Gwasanaeth Sul y Cofio</i> / Remembrance Sunday Service. 10.30 – 11.45am.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 10/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 10/10/2025.
327	<i>Bwrdd Iechyd Hywel Dda</i> Health Board: <i>Rhannwch eich barn</i> / Share your opinion.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 10/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 10/10/2025.
328	Paul Jones – <i>Clwb Pêl Droed Maesglas</i> Football Club: <i>Mae CSC wedi cytuno i ail-wynebu'r maes parcio, ond ni dderbyniwyd cadarnhad ysgrifenedig</i> / CCC have agreed to resurfacing the car park, but no written confirmation received.	<i>Penderfynodd y cynghorwyr dderbyn y trefniant llafar ac i'r grant gael ei dalu i glwb pêl-droed Maesglas</i> / Councillors resolved to accept the verbal arrangement and for the grant to be paid to Maesglas football club.
329	Mathew Roebuck - <i>Swyddog Gweithgarwch a Chwarae Corfforol Cymunedol</i> / Community Physical Activity & Play Officer: <i>Grantiau Cronfa'r Teulu</i> / Family Fund Grants.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 13/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 13/10/2025.
330	Katie Anderson-Hammersley – <i>Diolch yn fawr iawn am yr offer chwarae newydd yn Pentop</i> / Massive thank you for the new play equipment at Pentop.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 13/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 13/10/2025.
331	<i>Tim Bioamrywiaeth Un Llais Cymru</i> / One Voice Wales Biodiversity Team: <i>Natur am Bydd</i> / Diverse by Nature webinars.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 14/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 14/10/2025.
332	Nigel Blake – <i>Cadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Eglwys Gatholig</i> / Chair of the Parish Advisory Committee, Our Lady of the Taper Catholic Church: <i>Cyngerdd dros Heddwch ac Atgoffa</i> / Concert for Peace and Remembrance. 2/11/2025 1800hrs.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 15/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 15/10/2025.
333	Cerith Thomas – <i>Uwch Swyddog Polisi, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru</i> / Senior Policy Officer, Welsh Local Government Association: <i>Llunio Dyfodol Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru – Digwyddiadau Cymunedol</i> / Shaping the Future of Public Services in Wales – Community Events.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 15/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 15/10/2025.
334	Cyngor Sir Ceredigion County Council: <i>Cyfarfod rhwng cynrychiolwyr y Cyngor Sir a Chyngorau Tref a Chymuned</i> / Meeting between representatives of the county Council and Town and Community Councils.	<i>Penderfynwyd y byddai'r Cyng Olwen Davies a Richard Davies yn ymuno ag Elaine Evans a Siân Maehrlein ar gyfer y cyfarfod hwn</i> / It was resolved that Cllrs Olwen Davies and Richard Davies will join Elaine Evans and Siân Maehrlein for this meeting.
335	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru</i> / One Voice Wales: <i>Gweminar Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth</i> / Anti-Racism Action Plan Webinar.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 17/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 17/10/2025.
336	Dafydd Llywelyn – <i>Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys</i> / Dyfed Powys Police and Crime Commissioner: <i>Bwletin</i> / Bulletin.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 20/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 20/10/2025.
337	Martin Ives – <i>Ysgrifennydd Pwyllgor Ymddiriedolwyr Amgueddfa Wlân Cyfeillion Ceredigion</i> / Secretary to the Friends of Ceredigion Wool Museum Trustee Committee: <i>Ymweliad â'r Amgueddfa</i> / Visit to the Museum.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 20/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 20/10/2025.
338	Sam Vicary – <i>Theatr Byd Bychan</i> / Small World Theatre: <i>Gwahoddiad</i> / Invitation <i>Llais yr Afon 14/11/2025.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 20/10/2025.</i>

		For your information. Forwarded to all councillors on 20/10/2025.
339	Rachael Eagles – <i>Prif Swyddog Gweithredol</i> / Chief Executive Officer, Area 43: <i>Cyfarfod Cyffredifon Blynyddol</i> / Annual General Meeting 4.30pm, 2/12/2025.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 22/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 22/10/2025.
340	<i>Bwletin Hydref Costau Byw Ceredigion</i> / Ceredigion October cost of Living Bulletin.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 23/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 23/10/2025.
341	Wendi Patience – <i>Un Llais Cymru</i> / One Voice Wales: <i>Sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir yn Hydrefi - Rhagfyr</i> / Remote training sessions that are taking place in October-December.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 24/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 24/10/2025.
342	Wynne Jones – <i>Presylwydd</i> / Resident: <i>Sylw ar gais cynllunio A240851 – Tir yn Dol y Dintir, Heol Newmill, Aberteifi SA43 1NE</i> / Observation on planning application A240851 – Land at Dol y Dintir, Newmill Road, Cardigan SA43 1NE.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 24/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 24/10/2025.
343	Richard James – George Davies & Evans: <i>Prydles Meysydd Chwarae'r Brenin Siôr er budd Clwb Rygbi Aberteifi</i> / Lease of King George Playing Fields in favour of Cardigan Rugby Club.	Nodwyd / Noted.
344	<i>CSC Adain Cau Ffyrdd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd</i> / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: <i>Rhes Greenfield Row 26/11/2025-28/11/2025 0900-1700hrs.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 27/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 27/10/2025.
345	Dafydd Rennie – <i>Swyddog Trfnidiaeth, CSC</i> / Transport Officer, CCC: <i>Adolygiad perchnogaeth cysgodfannau bysiau</i> / Review of Bus Shelter ownership.	<i>Penderfynwyd hysbysu'r swyddog trafndiaeth nad yw cyngor y dref yn berchen ar unrhyw un o'r arosfannau bysiau</i> / It was resolved to inform the transport officer that the town council does not own any of the bus stops.
346	Nathan Driver – <i>Adran Trwyddedu, CSC</i> / Licensing Department, CCC: <i>Ymgynghoriad: Datganis od Bolisi Trwyddedu 2026-2031</i> / Consultation: Statement of Licensing Policy 2026-2031.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 28/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 28/10/2025.
347	Clare Phillips – <i>Pennaeth Cydweithio a'r Sector Cyhoeddus</i> / Head of Public Sector Collaboration – <i>Ystadau Cymru: Cyndadled Ystadau Cymru 6 Tachwedd 2025</i> / Conference 6 November 2025.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 28/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 28/10/2025.
348	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru</i> / One Voice Wales: <i>Gweminar Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldeb Trafnidiaeth yng Nghymru</i> / Tackling Transport Inequality in Wales Webinar.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 29/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 29/10/2025.
349	<i>Cyllid a Chaffael, CSC</i> / Finance and Procurement, CCC: <i>Manylion Taliad Praesept 3</i> / Remittance Advice Precept 3.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 29/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 29/10/2025.
350	<i>Adran Polisi Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru</i> / Local Government Policy Department, Welsh Government: <i>Gweithdy Protocol Datrysidadau Lleol</i> / Local Resolution Protocol Workshop.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 30/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 30/10/2025.
351	Emma Wallace – <i>Uwch Swyddog Ymchwil, Llywodraeth Cymru</i> / Senior Research Officer, Welsh Government: <i>Mesur a Monitro Iechyd Democrataidd yng Nghymru</i> / Measuring and Monitoring Democratic Health in Wales.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 30/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 30/10/2025.
352	<i>Y Cyng</i> / Cllr Elaine Evans – <i>Difrod i sedd llechi yn Gilfach Penbont</i> / Damage to slate seat in Gilfach Penbont.	<i>Mae'r Cyng Elaine Evans wedi cwestiynu'r datganiad gan ystadau ynghylch perchnogaeth a bydd y clerc yn cwestiynu'r ymateb ar ran y Cyngor</i> / Cllr Elaine Evans has queried the statement from estates regarding

		ownership and the clerk will question the response on behalf of the council.
353	CSC Adain Cau Ffydd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: Stryd y Priordy a Pendre / Priory Street and Pendre 29/11/25 1630-1730hrs.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 31/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 31/10/2025.
354	Dr Catrin Jones- Swyddog Polisi, Un Llais Cymru / Policy Officer, One Voice Wales: Ymgynghoriad ar y newidiadau i reolau etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru / Consultation on the changes to local government elections rules in Wales.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 31/10/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 31/10/2025.

c) Diffibriliwr Castell Aberteifi.

Penderfynodd y Cynghorwyr brynu bocs i gartrefu'r diffibriliwr y tu allan i'r castell er mwyn gwella mynediad yn unol â chais Meirion Davies, Rheolwr y Castell.

Cardigan Castle Defibrillator.

Councillors resolved to purchase a box to house the defibrillator outside the castle to improve accessibility as requested by Meirion Davies, the Castle Manager.

d) 850 mlynedd ers yr eisteddfod yng Nghastell Aberteifi.

Penderfynwyd ffurfio gweithgor i gynnwys cynghorwyr, aelodau'r eisteddfod, masnachwyr, staff Castell Aberteifi a Theatr y Byd Bach i benderfynu ar gynllun gweithredu ar sut i ddathlu'r pen-blwydd a chroesawu'r eisteddfod yn 2026.

850-year anniversary for the Eisteddfod at Cardigan Castle.

It was resolved to form a working group to include councillors, Eisteddfod members, traders, Cardigan Castle staff and the Small World Theatre to decide on an action plan on how to celebrate the anniversary and welcome the Eisteddfod y Gareeg Las in 2026.

e) Adroddiad Bioamrywiaeth blynyddol dyletswydd Adran 6.

Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cwblhau'r adroddiad a'i rannu ag aelodau'r Is-bwyllgor Bioamrywiaeth ar gyfer gwelliannau.

Section 6 duty annual Biodiversity Report.

It was resolved for the Clerk to complete the report and share it with Biodiversity Sub-Committee members for amendments.

f) Adborth Is-bwyllgor Addurniadau Canol y Dref.

Hysbysodd aelodau'r Is-bwyllgor fod glaswellt ffug wedi'i brynu i'w ddefnyddio fel cefndir i'r goeden Nadolig, rhannwyd lluniau a chytunodd pawb fod y glaswellt yn welliant, bydd y seren ar ben y goeden hefyd yn cael ei disodli. Bydd yr is-bwyllgor yn gwneud cais am ddau gau ffordd ar wahân o ddwy awr yr un i alluogi gwifrau "catenary" i gael eu disodli gan wifrau dur di-staen newydd ym mis Chwefror 2026. Derbyniodd y Cyng Richard Jones hawl i osod 3 addurn anhreg ar Gei'r Tywysog Siarl. Hysbysodd y Cyng Olwen Davies y cynghorwyr y bydd Ogof Siôn Corn ar agor ym Marchnad Neuadd y Dref, Aberteifi yn ystod seremoni troi'r goleuadau ymlaen. Anfonir llythyr gwerthfawrogiad at Tom Samways am noddi'r melysion eleni eto.

Town Centre Decorations Sub-Committee Feedback.

The Sub-Committee members informed fellow councillors that false grass has been purchased to be used as background to the Christmas tree, pictures were shared and everyone agreed the grass was an improvement, the star on top of the tree will also be replaced. The sub-committee will be applying for two separate road closures of two hours each to enable the overhead catenary wires to be replaced by new stainless-steel wires in February 2026. Cllr Richard Jones received approval to install 3 present style decorations on Prince Charles Quay. Cllr Olwen Davies informed councillors that Santa's Grotto will be open in Cardigan Guildhall Market during the switching on the light's ceremony. A letter of

appreciation will be sent to Tom Samways for sponsoring the sweets this year again.

g) Biniau canol tref.

Penderfynwyd aros nes bod cadarnhad gan y Cyngor Sir yn cael ei gael neu ei dynnu'n ôl, ynghylch cyflenwi biniau newydd.

Town Centre Bins.

It was resolved to wait until confirmation from CCC is gained or withdrawn, regarding the supply of new bins.

h) Tir Gerddi Rhandir ar Heol Llandudoch ar werth.

Mae'r perchennog wedi awgrymu y bydd y tir yn cael ei werthu yn y pen draw. Gallai CSC neu ddefnyddwyr y rhandiroedd fel grŵp cymunedol ystyried opsiynau prynu. Ni welodd y cynghorwyr y fantais o brynu'r tir eu hunain.

Allotment Gardens land on St Dogmaels Road for sale.

The owner has indicated that the land will eventually be sold. Purchase options could be considered by CCC or the allotment users as a community group. Councillors did not see the benefit of purchasing the land themselves.

i) Ffair Aberteifi.

Bydd reidiau'r Ffair ar agor i'r rhai llai abl am 4.00pm ddydd Sadwrn 8 Tachwedd.

Canmolodd y Cynghorwyr Vernon Stud am ei haelioni eto eleni. Bydd elfen Marchnad Stryd y ffair ar agor i fasnachu am 10.00yb ddydd Llun 10 Tachwedd a bydd y Ffair yn cael ei agor yn swyddogol gan y Maer am hanner dydd a'i fendithio gan y Parch Wyn Maskell. Gallai'r cynnig i gau ffordd Feidrfair, gan y Grid Cenedlaethol, achosi problem diogelwch ar gyffordd Teras Williams, Feidrfair. Mae'r Cynghorydd Richard Davies wedi gofyn am ohirio dechrau'r gwaith neu i'r ffordd agor am 4.00yp ar ddiwrnod y ffair. Cytunodd y Cynghorwyr Sir Elaine Evans a Siân Maehrlein i ddilyn hyn i fyny. Mae nifer a maint y stondinau marchnad wedi cynyddu eleni, oherwydd y gostyngiad ym mhpris y safle. Bydd atalfeydd yn cael eu defnyddio i ganiatáu i'r stondinau gael eu gosod ar Grosvenor Hill a Stryd Morgan.

Cardigan Fair.

The Fairground rides will be open for the less able at 4.00pm on Saturday 8 November. Councillors commended Vernon Stud on his generosity again this year. The Street Market element of the fair will be open for trading at 10.00am on Monday 10 November and the Fairground will be officially open by the Mayor at midday and blessed by Rev Wyn Maskell. The proposed road closure of Feidrfair, by the National Grid could pose a safety issue on the Williams Terrace, Feidrfair junction. A request for a delay for the work to begin or for the road to open at 4.00pm on fair day has been sought by Cllr Richard Davies. County Cllrs Elaine Evans and Siân Maehrlein agreed to follow this up. The amount and size of the market stalls has increased this year, due to the reduction in the pitch price. Barriers will be used to allow the stalls to be placed on Grosvenor Hill and Morgan's Street.

9. Eitemau er gwybodaeth yn unig / Items for information only

a) Dyddiadur y Maer

9 Hydref	Cinio Pwyllgor Gefeillio Brioude yn Coleg Aberteifi
14 Hydref	Cyfarfod trefnu Gwasanaeth y Cadoediad
18 Hydref	Bore Coffi yn yr Hafod
18 Hydref	Gweinyddwyd yn Rali Cilwendeg
19 Hydref	Gweinyddwyd yn Rali Cilwendeg
19 Hydref	Gwasanaeth Gŵyl Gynhaeaf Tir Dewi, Caerfyrddin

30 Hydref	Seremoni Agoriadol ar gyfer y Lleisiau Eraill
31 Hydref	Gŵyl Lleisiau Eraill
1 Tachwedd	Gŵyl Lleisiau Eraill
2 Tachwedd	Cyngerdd yr Eglwys Gatholig - Coffa a Heddwch

Mayor's Diary

9 October	Brioude Twinning Committee Dinner at Ceredigion College
14 October	Organising the Remembrance Service meeting
18 October	Coffee Morning at the Hafod
18 October	Officiated at the Cilwendeg Rally
19 October	Officiated at the Cilwendeg Rally
19 October	Tir Dewi Harvest Festival Service, Carmarthen
30 October	Opening Ceremony for the Other Voices
31 October	Other Voices Festival
1 November	Other Voices Festival
2 November	Catholic Church Concert Remembrance and Peace

b) Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

Y Cyng Elaine Evans Ward Teifi

- Mynychais gyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 8 Hydref. Cafwyd trafodaeth ynghylch y posibilrwydd o gynnal Digwyddiad Gwybodaeth Gymunedol yn Aberteifi, yn debyg i'r un a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Aberporth.
Ymhlith y prif ddiweddariadau o'r cyfarfod roedd:
 - Mae Profi wedi bod yn ymgysylltu ag ysgolion ac yn cynnal sesiynau galw heibio i fusnesau lleol rannu barn.
 - Cynhelir Gweithdy Strategaeth Economaidd yn Aberteifi ar 12 Tachwedd.
 - Mae gan Geredigion sy'n Gyfeillgar i Oedran 34 o gynrychiolwyr dinasyddion ledled y sir erbyn hyn ac mae'n bwriadu cynnal sesiwn galw heibio yn Aberteifi.
 - Mae Mannau Croeso Cynnes sydd wedi derbyn cyllid yn cynnwys The Depot, Eglwys New Life Mount Zion, a Jig-So.
 - Mae Prosiect Gwydnwch Dŵr Dŵr Cymru yn parhau i gefnogi cwsmeriaid agored i niwed trwy gynlluniau fforddiadwyedd ac ymweliadau cartref i osod dyfeisiau arbed dŵr. Mae dros 200 o drigolion wedi elwa hyd yn hyn.
 - Disgwylir i ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch y Ganolfan Llesiant arfaethedig ddigwydd yn y flwyddyn newydd.
 - Mae Ffair Swyddi wedi'i threfnu ar gyfer 30 Tachwedd yn Aberteifi.
 - Mae Ein Cegin yn gweithio i wella mynediad at gynnyrch ffres yn lleol, ac mae Ysgol Gynradd Aberteifi yn cynnal sesiynau coginio o dan y cynllun Cegin mewn Blwch.
- Derbyniwyd diweddariad ynghylch y llwybr o'r Bont Drawbridge i'r Capel Gorffwys. Mae contractwr wedi clirio llystyfiant o'r wal, ac mae Cyngor Sir Ceredigion yn aros am ddyddiadau i beiriannydd strwythurol gynnal archwiliad diogelwch llawn o fewn y 3-4 wythnos nesaf.

Bydd diweddariadau pellach ar y camau nesaf a'r amserlenni yn dilyn unwaith y bydd yr archwiliad wedi'i gwblhau ac yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael.

- Mynychais fore coffi yn Yr Hafod gyda'r Maer.
- Mynychais yr Is-bwyllgor Addurniadau'r Dref.
- Anfonwyd gohebiaeth bellach at Gyngor Sir Ceredigion ynghylch problemau parcio ar Heol yr Orsaf, ynghyd â ffotograffau.
- Cynhaliwyd cyfarfod gyda dau o drigolion, Osian Jones (Swyddog Gwrychoedd a Llwybrau), ac Annett Burkett (Uwch Beiriannydd, Rheoli Llifogydd a Dŵr, Priffyrdd) i drafod problemau parhaus ar hyd Llwybr y Pererin. Archwiliodd y grŵp y llwybr ceffylau, a chytunwyd ar sawl cam gweithredu:
 - i. Disodli'r giât bren wedi torri gyda giât ddur galfanedig a gosod rhwystrau damwain.
 - ii. Torri llystyfiant sy'n ymledu.
 - iii. Crafu ffosydd bas presennol.
 - iv. Glanhau gridiau.
 - v. Ailagor yr ardal dalgylch ar ben y llwybr ceffylau.
 - vi. Sefydlu cyfundrefn gynnal a chadw ddwywaith y flwyddyn ar gyfer clirio ffosydd cyn y gaeaf.

Cysylltwyd â chontractwr ac rydym yn aros am ddyddiad ar gyfer cychwyn y gwaith hwn. Efallai y bydd cyfleoedd hefyd i wella'r arwyneb ar ben y llwybr ceffylau ger Briscwm trwy'r Grant Gwella Mynediad, yn amodol ar gadarnhad yn y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd Annett Burkett hefyd yn cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer grant Llywodraeth Cymru i ymgymryd â gwaith peirianeg mwy sylweddol i gyflawni ateb hirdymor. Os bydd yn llwyddiannus, byddai'r rhaglen ddwy flynedd yn cynnwys cyfnod dylunio ym mlwyddyn un a gweithredu ym mlwyddyn dau.

- Mynychais gyfarfod Pwyllgor Cydlynw Trosolwg a Chraffu yn rhinwedd fy swydd fel cadeirydd y pwyllgor i drafod y cynllun gwaith ymlaen llaw, yn ogystal â chyfarfod y Cyngor Sir Llawn a gynhaliwyd ar 23 Hydref.
- Roedd presenoldeb pellach yn cynnwys digwyddiad lansio "Lleisiau Eraill" yng Nghastell Aberteifi, a gafodd rhifoedd da ac a oedd yn llwyddiannus dros dridiau, a Ras y Maer, lle bŵm yn dyfarnu ar ran y Maer. Roedd 151 o redwyr, a dyfarnwyd gwobrau i'r enillwyr. Bydd elw'r digwyddiad yn cefnogi Jig-So ac Area 43.

Cllr Elaine Evans Teifi Ward

- I attended a Public Services Board meeting on 8th October. Discussion took place regarding the possibility of holding a Community Information Event in Cardigan, similar to the one recently held in Aberporth.
Key updates from the meeting included:
 - i. Profi have been engaging with schools and holding drop-in sessions for local businesses to share views.
 - ii. An Economic Strategy Workshop will be held in Cardigan on 12 November.
 - iii. Age Friendly Ceredigion now has 34 citizen representatives across the county and intends to hold a drop-in session in Cardigan.
 - iv. Warm Welcome Spaces that have received funding include The Depot, New Life Church, Mount Zion, and Jig-So.

- v. Dŵr Cymru's Water Resilience Project continues to support vulnerable customers through affordability schemes and home visits to fit water-saving devices. Over 200 residents have benefited to date.
 - vi. Public engagement regarding the proposed Wellbeing Centre is expected to take place in the new year.
 - vii. A Jobs Fair is scheduled for 30 November in Cardigan.
 - viii. Ein Cegin are working to improve access to fresh produce locally, and Cardigan Primary School is hosting cooking sessions under the *Kitchen in a Box* scheme.
- An update was received regarding the path from Drawbridge to the Chapel of Rest. A contractor has cleared vegetation from the wall, and Ceredigion County Council is awaiting dates for a structural engineer to carry out a full safety inspection within the next 3–4 weeks. Further updates on next steps and timeframes will follow once the inspection is complete and dependent on available resources.
 - I attended a coffee morning at Yr Hafod with the Mayor.
 - I attended the Town Decorations Sub-Committee meeting.
 - Further correspondence has been sent to Ceredigion County Council regarding parking issues on Station Road, accompanied by photographs.
 - A meeting was held with two residents, Osian Jones (Hedgerow and Pathways Officer), and Annett Burkett (Senior Engineer, Flood and Water Management, Highways) to discuss ongoing issues along Pilgrim's Way. The group inspected the bridlepath, and several actions were agreed:
 - i. Replacement of the broken timber gate with a galvanised steel gate and installation of crash barriers.
 - ii. Cutting back of encroaching vegetation.
 - iii. Scraping of existing shallow ditches.
 - iv. Cleaning of grids.
 - v. Reopening of the catchment area at the top of the bridleway.
 - vi. Establishment of a twice-yearly maintenance regime for ditch clearance prior to winter.

A contractor has been contacted and we are waiting for a date for the commencement of these works. There may also be opportunities to improve the surfacing at the top of the bridleway near Briscwm through the Access Improvement Grant, pending confirmation in the next financial year. Annett Burkett will also submit an Expression of Interest for a Welsh Government grant to undertake more substantial engineering works to achieve a long-term solution. If successful, the two-year programme would include a design phase in year one and implementation in year two.

- I attended an Overview and Scrutiny Coordinating Committee meeting in my capacity as a committee chair to discuss the forward work plan, as well as the Full County Council meeting held on 23rd October.
- Further attendance included the launch event of "Other Voices" at Castell Aberteifi, which was well attended and successful over three days, and the Mayor's Race, where I officiated on behalf of the Mayor. There were 151 runners, and prizes were awarded to the winners. Proceeds from the event will support Jig-So and Area 43.

Y Cyng Siân Maehrlein Ward Mwldan

- **Mae'n debyg y bydd y goeden farw yn Y Rhos yn cael ei symud unwaith y bydd swyddog o'r Cyngor Sir Ceredigion wedi ymweld â'r safle.**

- Rwyf wedi cysylltu â CLIC ynghylch pyllau dŵr dwfn ar y ffordd ger y Ganolfan Gofal Integredig sy'n achosi perygl i yrwyr.
- Cynorthwyaais breswlydd i godi dirwy parcio a dderbyniwyd yn anghywir gan safle Coleg Ceredigion.
- Mynychais y bore coffi yn yr Hafod gyda fy nghyd-gynghorydd sir a'r Maer.
- Rwyf wedi mynychu amryw o weithdai ac wedi cwblhau fy holl hyfforddiant gorfodol.

CLlr Siân Maehrlein Mwldan Ward

- The dead tree in The Rhos will probably be removed once a site visit by a CCC officer has been made.
- I have contacted CLIC regarding deep puddles on the road close to the Integrated Care Centre which are causing a danger to drivers.
- I assisted a resident to successfully lift a parking fine received from the Coleg Ceredigion site, as it was incorrectly served.
- I attended the coffee morning at the Hafod with my fellow county councillor and the Mayor.
- I have attended various workshops and completed all of my mandatory training.

c) Adroddiad y Bachan Deche / Handyperson's Report.

- i. **Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed**
Mae adnewyddu'r cae yn parhau i fod yn flaenoriaeth, mae ymweliad â'r safle wedi'i drefnu ar gyfer dydd Sadwrn 8 Tachwedd.
- ii. **King George 5th Children's Play Area**
The refurbishment of the park remains a priority, a site visit has been arranged for Saturday 8 November.
- iii. **Man chwarae amlbwrpas a chyrtau tenis**
Mae problem gyda'r arwydd tenis a'r ffens, byddaf yn edrych arni ar ôl y cyfarfod hwn ac yn adrodd ar fy nghanfyddiadau ym mis Rhagfyr.
Multi-purpose play area and Tennis Courts.
There is a problem with the tennis sign and the fencing, I'll look at it after this meeting and report my findings in December.
- iv. **Maes Sgrialu /Skateboard Park**
Dim yw adrodd / Nothing to report.
- v. **Cae Chwarae Pentop / Pentop Play Area**
Dim yw adrodd / Nothing to report.
- vi. **Cyffredinol.**
Mae arddangosfeydd blodau canol y dref wedi dechrau ail-flodeuo ac maent yn edrych yn gymharol ffres, bydd yr haen waelod yn cael ei hailblannu gyda rhai pansies, gan ein galluogi i elwa o'u lliw dros y misoedd nesaf.
General.
The town centre flower displays have started to reflower and are looking relatively fresh, the bottom tier will be replanted with some pansies, enabling us to benefit from their colour over the coming months.

d) Amserlen waith mân.

Adolygwyd a chytunwyd ar yr amserlen gan y cynghorwyr. Atgoffodd y Maer y Bachan Deche i rannu cymaint o'r tasgau â phosibl oherwydd bod y Ffair a Gwasanaeth y Cadoediad yn cael ei gynnal mor agos at ei gilydd y mis hwn yn ogystal â threfnu'r goleuadau Nadolig.

Minor works schedule.

The schedule was reviewed and agreed by the councillors. The Mayor reminded the Handyman to share as much of the tasks as possible due to the Fair and Remembrance Service being held so closely together this month as well as organising the Christmas lights.

10. Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf.

Palmentydd canol y dref.

Cyfleusterau Clwb Rygbi.

Items for the next Agenda.

Town centre pavements.

Rugby Club Facilities.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 19.20yh.

There being no further business to discuss, the meeting closed at 19.20pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date